
**17eg Cyfarfod Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru
Dydd Mercher, 27 Medi 2018
Ystafell Gynadledda, Tŷ Hywel, Bae Caerdydd
Cofnodion**

AELODAU

Llywodraeth Cymru

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau
Cyhoeddus– Cadeirydd

Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Y Cyng. Andrew Morgan, Swyddog Llywyddu CLILC (Rhondda Cynon Taf)

Y Cyng. Aaron Shotton, Dirprwy Arweinydd CLILC (Sir y Fflint)

Y Cyng. Peter Fox OBE (Sir Fynwy)

Y Cyng. Dyfrig Siencyn, (Gwynedd)

Y Cyng. Marc Pritchard (Wrecsham)

Y Cyng. Mark Whitcutt (Casnewydd)

Y Cyng. Huw David, Dirprwy Swyddog Llywyddu CLILC (Pen-y-bont ar Ogwr)

YN BRESENNOL

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Rachel Maycock – Cynghorydd Arbennig

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwr, Llywodraeth Leol

Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid a Phartneriaethau Gweithlu
Llywodraeth Leol

Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr, Cyllid Strategol Llywodraeth Leol

Simon Edwards – Cyllid a Phartneriaethau Gweithlu Llywodraeth Leol

Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Steve Thomas CBE – Prif Weithredwr, CLILC

Nigel Aurelius – Cynrychiolydd Cymdeithas Trysoryddion Cymru

John Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau, CLILC

Comisiynwyr Heddlu a Throseddau

Y Gwir Anrh. Alun Michael – Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru

YMDDIHEURIADAU

Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd CLILC, (Casnewydd)

Y Cyng. Paul Miller (Sir Benfro)

Y Cyng. Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid CLILC (Torfaen)

Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau

1. Croesawodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (Ysgrifennydd y Cabinet) yr aelodau i 17eg cyfarfod yr Is-grŵp Cyllid.

Eitem 2: Cofnodion a Materion yn Codi o Gyfarfod Blaenorol

2. Cadarnhawyd bod y camau gweithredu oedd yn codi o'r cyfarfodydd blaenorol wedi'u cwblhau.

Eitem 3: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (eitem lafar)

3. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yr amseru o ran cyllidebau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
4. Roedd y Cabinet wedi cytuno mai llywodraeth leol fyddai'r cyntaf i elwa ar gyllid ychwanegol o gyllideb Llywodraeth y DU.
5. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y bydd yn ceisio gwneud newidiadau i'r trefniadau o ran gorfodi'r dreth gyngor yn y dyfodol, a hefyd ei gwneud yn anoddach osgoi talu ardrethi annomestig.

Eitem 4: Diweddariad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu

6. Mynegodd y Gwir Anrh. Alun Michael fod dymuniad o hyd i gael rhagor o ddatganoli o ran yr heddlu a chyfiawnder.

Eitem 5: Adroddiad Terfynol yr Is-grŵp Dosbarthu 2018

7. Dywedwyd wrth yr arweinwyr bod yr argymhelliad ynglŷn â disgowntiau'r dreth gyngor wedi'u dileu gan fod yr Is-grŵp Dosbarthu yn cytuno bod angen rhagor o waith modelu ar hyn.
8. Derbyniodd aelodau'r Grŵp yr argymhellion yn adroddiad yr yr Is-grŵp Dosbarthu.

Eitem 6: Diweddariad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Gweithgor ar Lywodraeth Leol

9. Gofynnodd Ysgrifennydd y Cabinet i Lywodraeth Cymru a CLIC ystyried sut y gellid rhannu ystyriaethau'r grŵp yn ehangach.

Eitem 7: Papur/Diweddariad CLILC

10. Cyflwynwyd a nodwyd y papur ar bwysau ar lywodraeth leol.

Eitem 8: Unrhyw Fater Arall

11. Ni nodwyd unrhyw fater arall.